Dempster, Stuart***Cyfarwyddwr y 'Strategic Content Alliance'***

Menter yw SCA a noddir gan JISC, BBC, Becta, y Llyfrgell Brydeinig, MLA, a'r Ymddiriedolaeth Iechyd Genedlaethol i ddarparu Fframwaith Cynnwys y DG mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol eraill. Cyn hyn, roedd Stuart yn gyfrifol am lywio datblygiad Rhaglenni Digidol JISC, a mentrau digidol ym maes llyfrgellyddiaeth yn y Wellcome Trust, United News & Media, a'r Press Association.

Edmonds, Diana***Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Diwylliant, Llyfrgelloedd a Dysgu, Bwrdeistref Haringey, Llundain***

Yn ei swydd bresennol mae Diana bellach yn gyfrifol am amgueddfeydd, archifau, rheoli cofnodau, diwylliant ac addysg oedolion, yn ogystal â llyfrgelloedd. Mae ei chefnidir yn y sector breifat, yn sefydlu, datblygu ac, yn y pen draw, yn gwerthu Instant Library Ltd. Dechreuodd Diana weithio i Haringey yn 2001, fel ymgynghorydd yn y lle cyntaf, lle cafodd y dasg o drawsnewid y gwasanaeth llyfrgelloedd 'di-seren' a 'di-obaith' yn y Fwrdeistref.

Erbyn heddiw, caiff diwylliant yn Haringey – sydd bellach yn cynnwys y Llyfrgelloedd – ei raddio'n 'ardderchog'. Un o'r rhaglenni allweddol yw Llyfrgelloedd am Iechyd, a ddenodd tua 1,000 o gyfranogwyr y llynedd. Cafodd partneriaeth Haringey gyda NHS Digital Inclusion effaith bositif o fewn y rhaglen hon. Bellach mae llyfrgelloedd Haringey yn denu 150% mwy o ymwelwyr, ac yn benthyca 50% mwy o eitemau; a hwythau'n wir yng nghanol y gymuned, cawsant eu disgrifio'n ddiweddar gan David Lammy, AS fel "gwasanaeth perffaith ar gyfer y bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref".

Edwards, Susan***Archifydd Morgannwg, Archifydd Morgannwg***

Bu Susan yn Archifydd ym Morgannwg er 1996; mae'n gweithio yn Archifydd Morgannwg er 1982, ar ôl treulio cyfnodau mewn archifdai sirol a phrifysgol mewn mannau eraill.

Jones, Alun Ffred AC***Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Ganed Alun Ffred Jones ym Mrynaman yn 1949 a derbyniodd ei addysg yn Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn; Ysgol y Berwyn, Y Bala, a Phrifysgol Cymru, Bangor. Cyn ei ethol i'r Cynulliad, roedd yn gyfarwyddwr a chynhyrhydd teledu i gwmni Ffilmiau'r Nant; cyn hynny roedd yn athro Cymraeg a Phennaeth Adran, ac yn newyddiadurwr gyda HTV. Mae'n gyn-Arweinydd Cyngor Sir Gwynedd, yn gyn-Gadeirydd Antur Nantlle, ac yn Gadeirydd Clwb Pêl-droed Dyffryn Nantlle. Mae ei ddiddordebau'n cynnwys gwahanol fathau o chwaraeon, y sinema, y theatr, barddoniaeth, beicio a garddio.

Green, Elizabeth***Curadur yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Ogledd Cymru***

Er 2002, mae Liz Green yn Guradur yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Ogledd Cymru yng ngofal casgliadau, yr adeiladau hanesyddol sy'n rhoi cartref iddynt, ac adeiladau ystâd a brodorol eiddo'r Ymddiriedolaeth yng nghefn gwlad. Ym maes pensaernïaeth y mae ei chefnidir, ac yn 2006 cwblhaodd radd PhD ar Dai Neuadd Canoloesol yng Ngogledd a Dwyrain Cymru.

Griffiths, Peter***Llywydd CILIP***

Peter Griffiths yw Llywydd CILIP yn 2009, a hyd 2008 ef oedd Pennaeth Gwybodaeth y Swyddfa Gartref yn Llundain. Bellach mae'n disgrifio'i hun fel arbenigwr annibynnol ym maes gwybodaeth, yn gweithio gyda phobl sydd â diddordeb mewn rheoli gwybodaeth, archwiliad gwybodaeth, a rhoi gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau llyfrgell ar gytundeb allanol. Roedd Peter yn aelod o'r Cyngor Gwybodaeth, grŵp Llywodraeth y DG a weithiai ar strategaeth wybodaeth ar gyfer y sector cyhoeddus, a gwnaeth hyn yn un o'i themâu fel Llywydd. Mae'n awdur ac yn gyd-awdur nifer o lyfrau ac erthyglau ar faterion yn ymwneud â maes llyfrgelloedd a gwybodaeth, ac yn gweithio ar ddau deitl ar hyn o bryd. Yn ei amser hamdden mae'n mwynhau garddio, teithio ac ymchwilio achau teuluol.

Hardman, Steve***Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell, Dinas a Sir Abertawe***

Mae Steve yn ei swydd bresennol ers mis Mai 2006; ynghyd â thîm o staff hynod ymroddedig a brwdfrydig, bu'n cynorthwyo yn y gwaith o ddarparu dwy lyfrgell newydd, trefnu gwaith adnewyddu ar raddfa eang mewn tair llyfrgell, ac agor Llyfrgell Ganolog newydd dinas Abertawe. Mae'n aelod o nifer o baneli ymgynghorol, ac ef yw Cadeirydd presennol Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yng Nghymru. Mae gan Steve dros ugain mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae ei ddiddordebau proffesiynol yn cynnwys defnyddio TGCh o fewn y gwasanaethau llyfrgell, a'r ymwybyddiaeth o ddelwedd llyfrgelloedd yng ngolwg defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr.

Jones, Arwel***Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus, Llyfrgell Genedlaethol Cymru***

Penodwyd Arwel yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Medi 2008. Fe'i hyfforddwyd fel archifydd, a chyn symud i'w swydd bresennol roedd yn gyfrifol am ddigido yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Kelly, Brian***'UK Web Focus' ac Arweinydd Tîm UKOLN, Prifysgol Bath***

Mae Brian Kelly yn gweithio i UKOLN, canolfan genedlaethol arbenigedd mewn rheoli gwybodaeth ddigidol; lleolir y ganolfan ym Mhrifysgol Bath, a chaiff ei hariannu gan JISC a'r MLA. Mae Brian yn ymgynghorydd ar safonau, datblygiadau ac arfer gorau yn y defnydd o'r We, a chanddo ddiddordeb arbennig mewn arfer gorau yng nghyd-destun datblygu Web 2.0 a'r We Gymdeithasol. Yn 2007/08, enillodd Brian wobwr Gweithiwr Gwybodaeth Proffesiynol y Flwyddyn dan nawdd Information World Review.

Khan, Ayub***Pennaeth Llyfrgelloedd (Strategaeth), Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Swydd Warwick***

Ar hyn o bryd mae Ayub Khan yn goruchwyllo'r gwaith o lwyr drawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell yn Swydd Warwick. Mae'n aelod o Bwyllgor Diwylliant UNESCO ac o Bwyllgor Aml-ddiwylliant IFLA. Yn 1998 cyflwynwyd Medal Canmlwyddiant Cymdeithas y Llyfrgelloedd iddo am ei wasanaeth i Lyfrgellyddiaeth, ac

yn 2003 derbyniodd glod uchel yng nghategori cyrhaeddiad personol gwobrau CILIP. Fe'i gwnaed yn Gymrawd yn 2004. Mae Ayub: yn Is-gadeirydd Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yn ei ardal leol; yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Statford Upon Avon ar Farddoniaeth; yn un o Ymddiriedolwyr CILIP; yn Gadeirydd Panel CILIP ar Gyfleoedd Cyfartal ac Amrywedd, ac yn gyn-Lywydd y Grŵp Datblygu Gyrfa.

Lewis, Martin

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Llyfrgell a Llyfrgellydd Prifysgol Sheffield

Mae Martin yn Aelod o Fwrdd Llyfrgelloedd Ymchwil y Deyrnas Gyfunol, ac yn cadeiro'r Tasglu e-Ymchwil. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Llyfrgell Brydeinig, ac o Fwrdd Rheoli Prosiect astudiaeth ddichonoldeb Gwasanaeth Data Ymchwil y DG. Ymhlith ei ddiddordebau proffesiynol y mae marchnata gwasanaethau llyfrgell, datblygu staff llyfrgelloedd, a chynllun adeiladau llyfrgell a gofodau dysgu. Mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys: Is-Gyfarwyddwr Llyfrgell Prifysgol Sheffield; pennaeth Llyfrgell Gwyddorau Iechyd Sheffield; ymgynghorydd pwnc (gwyddoniaeth) yn Llyfrgell Prifysgol Leeds; a phenodiad cyfnewid am flwyddyn fel Llyfrgellydd Gwadd yn Llyfrgelloedd MIT. Cyn symud i faes llyfrgellyddiaeth bu Martin yn gweithio fel gwas sifil yng Nghaerdydd, ei ddinas enedigol, gyda chyfrifoldebau dros faes cynllunio gweithlu iechyd. Bu'n astudio Cemeg ym Mhrifysgol Caer-grawnt, yna ym Mhrifysgol Aberystwyth enillodd ddiploma i raddedigion mewn Llyfrgellyddiaeth. Dan arweiniad Martin, un o'r prif gynlluniau strategol allweddol ar gyfer Llyfrgell y Brifysgol oedd cynllunio a chomisiynu gofod dysgu pwysig ar gost o £23m, sef yr 'Information Commons' a agorwyd yn 2007.

McKee, Yr Athro Bob

Prif Weithredydd, CILIP

Bob McKee yw Prif Weithredwr CILIP; mae hefyd yn Athro Ymweld yn Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dysgu Prifysgol Caerwrangon. Bu'n Brif Swyddog mewn llywodraeth leol, gan weithio i Gyngor Bwrdeistref Solihull fel Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd a'r Celfyddydau, ac yna fel Dirprwy Brif Weithredwr yn gyfrifol am ddatblygiad economaidd a chydlynu polisi. Yn gynharach yn ei yrfa gweithiodd mewn llyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd ysgolion a cholegau, ac fel darlithydd yn Ysgol Astudiaethau Llyfrgellyddiaeth a Gwybodaeth Coleg Polytechnig Birmingham (Prifysgol Dinas Birmingham bellach). Mae Bob wedi dal ystod eang o swyddi ar gyrff proffesiynol a chyhoeddus, ac ar hyn o bryd mae'n aelod o'r canlynol: Pwyllgor Ymgynghorol Hawl Bentyca Cyhoeddus; Panel y Sector Llyfrgelloedd, Archifau a Gwybodaeth dros Ddysgu Gydol Oes yn y DG; a Fforwm Weithredol y cynllun 'Proffesiynoldeb mewn TG' a arweinir gan y Gymdeithas Gyfrifiadurol Brydeinig. Ar lefel ryngwladol, mae'n aelod o Fwrdd Rheoli a Phwyllgor Gwaith IFLA, Ffederasiwn Ryngwladol Cymdeithasau a Sefydliadau Llyfrgellyddol.

Morris, Elspeth

Rheolwr Gweithredol (Llyfrgelloedd), Caerdydd

Derbyniodd Elspeth wobwr am wasanaeth maith gan Gyngor Caerdydd ddeunaw mis yn ôl, felly hawdd y gellir dyfalu pa mor hir y bu'n gweithio i Lyfrgelloedd Caerdydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd brofiad o bron bob agwedd o waith llyfrgell, ac fe'i penodwyd i'w swydd bresennol rhyw flwyddyn yn ôl. Ei gobaith yw, nawr bod y Llyfrgell Ganolog newydd wedi agor, y gall fynd yn ôl at ei phriod waith; dros y saith mlynedd a hanner ddiwethaf roedd y llyfrgell newydd yn llyncu llawer gormod o'i hamser, ond bu'r cyfan yn werth y drafferth!

Prescott, Dr Andrew

Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan

Arferai Andrew Prescott fod yn Guradur yn Adran y Llawysgrifau, y Llyfrgell Brydeinig, ac ymhlith cyfrifoldebau eraill roedd yn un o gydlynwyr curadurol y rhaglen arloesol Initiatives For Access. Ef oedd prif gysylltiad y Llyfrgell Brydeinig ar y prosiect *Electronic Beowulf*, a enillodd Wobr Cymdeithas y Llyfrgelloedd-Mecklermedia yn 1997 am flaengaredd mewn technoleg llyfrgell. Rhwng 2000 a 2007, gweithiodd Andrew ar nifer o brosiectau digidol yn yr Humanities Research Institute, Prifysgol Sheffield. Fe'i penodwyd yn Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, ym mis Mawrth 2007. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae: *Towards a Digital Library: The British Library's Initiatives for Access Programme* (1998), *The Benedictional of St Aethelwold: a Masterpiece of Anglo-Saxon Art* (2001) ac, yn fwyaf diweddar, cyfrannodd at *What Are Archives*, gol. Louise Craven (2008).

Purdie, Jane***Swyddog Marchnata Prosiect Llyfrgelloedd am Oes***

Arferai Jane Purdie weithio ym maes marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn y sector preifat, ac ymunodd â swyddfa'r wasg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2005 fel Swyddog Cyhoeddusrwydd. Cafodd ei secondio i'r rhaglen Llyfrgelloedd am Oes yn 2007, gan ddatblygu a gweithio ar amryw o ymgyrchoedd a mentrau, yn cynnwys yr ymgyrch Dyddiau Difyr a gynhaliwyd yn yr Hydref y llynedd. Bydd y rhaglen Llyfrgelloedd am Oes yn parhau hyd 2011.

Silva, Megan De***Myfyriwr amser llawn ym Mhrifysgol Caerdydd, yn astudio 'Cadwraeth gwrthrychau mewn amgueddfeydd ac archaeoleg'***

Ar hyn o bryd mae Megan yn tynnu at derfyn ei blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd, lle mae hi'n astudio ar gyfer BSc mewn cadwraeth gwrthrychau mewn amgueddfeydd ac archaeoleg.

Smith, Cathy***Rheolwr Strategol: Casgliadau, Yr Archifdy Cenedlaethol***

Mae Cathy yn gyn-athrawes Saesneg a Drama. Ailhyfforddwyd hi ym Mhrifysgol Dinas Llundain yn niwedd yr 1990au, ac yna am gyfnod o 10 mlynedd bu'n gweithio yn Adran Gwybodaeth ac Archifau y BBC, gyda chyfnod byr yn gweithio ar brosiect yn seiliedig ar archifau i wasanaeth newyddion ar-lein y BBC. Yn ystod y deng mlynedd cafodd brofiadau amrywiol – o reoli casgliadau o ffotograffau a cherddoriaeth brint, i systemau archifo ar gyfer y we, a gwasanaethau teledu rhyngweithiol a symudol. Fel Archifydd y Cyfryngau Newydd, rhoddodd system archifo'r we ar waith yn y BBC, a datblygodd bolisiau archifo ar gyfer llwyfannau darlledu digidol. Eleni, fodd bynnag, bu'n canolbwyntio ar gasglu yn ei rôl newydd fel Rheolwr Strategaethau Casgliadau o fewn yr adran Ymchwil a Datblygu Casgliadau yn yr Archifdy Cenedlaethol. Ymhlith ei phrif gyfrifoldebau mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Casgliadau Cenedlaethol, ei lwyddiant, a'r effaith bositif a gaiff ar y sectorau treftadaeth ddiwylliannol ehangach.

Stevenson, Jane***Cydlynnydd Canolbwynt Archifau MIMAS, Prifysgol Manceinion***

Bu Jane yn gweithio yn Archifdy Sirol Swydd Warwick am 18 mis cyn dilyn cwrs ym Mhrifysgol Lerpwl i ennill gradd MA mewn Gweinyddu Archifau. Yn ddiweddarach fe'i penodwyd yn archifydd prosiect, ac yna'n Guradur Llawysgrifau ac Archifau yn Sefydliad Brenhinol Prydeinig y Penseiri (RIBA). Gyda'r bwriad o ennill mwy o brofiad technegol, symudodd i weithio ym Mhrifysgol Leeds ar System Wybodaeth Cyhoeddiadau Ymchwil a Pharc Gwyddoniaeth Rhithwir. Bellach mae'n gweithio i Ganolfan Genedlaethol Data MIMAS ym Mhrifysgol Manceinion, sy'n lletya ystod eang o wasanaethau ar-lein i'r gymuned addysg, addysg bellach ac ymchwil yn y DG. Dros y 6 blynedd ddiwethaf bu Jane yn gweithio i'r gwasanaeth Ffocws Archifau, sef porth i ddisgrifiadau o archifau i bwrpas addysg ac ymchwil. Ar hyn o bryd mae hi'n gyfrifol ar y cyd am gydlynw gweithgareddau a rheoli'r rhaglen waith, a chynnal a chadw'r Canolbwynt Archifau. Mae hi'n diwtor ar raglen MLitt Prifysgol Dundee mewn Archifau a Rheoli Cofnodau ar gyfer cwrs ar Gatalogio mewn Oes Ddigidol, ac yn aelod o Bwyllgor Safonau Data Cymdeithas yr Archifyddion.

Urquhart, Dr Christine***Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Aberystwyth***

Bu Dr Christine Urquhart yn gweithio yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth er 1993, fel ymchwilydd i ddechrau cyn ymuno â'r staff academiaidd. Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn ymchwil yn y maes gwybodaeth iechyd, ac mae'n awdur dros y grŵp 'Cochrane Effective Practice and Organisation of Care'. Ymhlith ei phrosiectau ymchwil cyfredol mae adolygiadau systematig o effeithiau systemau cofnodau nyrsio ar ymarfer broffesiynol a gofal y claf, telefeddyginiaeth, ac asesu effaith llyfrgelloedd iechyd ar ganlyniadau sy'n berthnasol i ofal y claf.

Wade, Martyn***Llyfrgellydd Cenedlaethol a Phrif Weithredwr, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban***

Ymunodd Martyn Wade â Llyfrgell Genedlaethol yr Alban fel Llyfrgellydd Cenedlaethol yn 2002, yn dilyn 25 mlynedd o brofiad yn y sector llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol gwledig a threfol, mewn ardaloedd megis Bwrdeistref Sutton, Llundain; Swydd Caerlŷr a Swydd Caergrawnt, a bu'n Bennaeth Llyfrgelloedd, Gwybodaeth ac Addysgu gyda Chyngor Dinas Glasgow.

Drwy gydol ei yrfa cymerodd ddiddordeb arbennig mewn dablygu gwasanaethau integredig wedi'u canoli ar y cwsmer a'r dinesydd.

Dan ei arweiniad ef, mae Llyfrgell Genedlaethol yr Alban wedi ennill enw da iddi'i hun am ddatblygiadau blaengar gyda'r nod o ledaenu mynediad i gasgliadau, arbenigedd a gwasanaethau'r Llyfrgell. Yn fwyaf arbennig, mae'r Llyfrgell yn archwilio'r defnydd o bartneriaethau a thechnoleg i gefnogi ymchwil ar bob lefel, tra ar yr un pryd yn galluogi cynulleidfaoedd newydd i fwynhau, dysgu ac elwa o adnoddau cyfoethog ac unigryw y Llyfrgell.

Mae gan Martyn ystod eang o ddiddordebau proffesiynol. Mae'n aelod o'r Panel Ymgynghorol ar Adneuron Ystatudol, sy'n cynghori llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar faterion yn ymwneud â'r maes, ac yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Adneuron Ystatudol. Mae'n aelod o Gyngor Dysgu Gydol Oes y Deyrnas Gyfunol, sy'n cefnogi hyfforddiant y gweithlu dysgu gydol oes yn y Deyrnas Gyfunol. Mae Martyn hefyd yn aelod o Gyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban, yn Is-gadeirydd Caeredin Dinas Lenyddiaeth UNESCO ac yn aelod o Fwrdd Llyfrgell Farddoniaeth yr Alban.

Wakelin, Dr Peter

Ysgrifennydd/Prif Weithredwr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Sefydlwyd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n curadu Archif Henebion Cenedlaethol Cymru, yn 1908 ac fe'i lleolir yn Aberystwyth. Ar ôl bod yn cyfarwyddo rhaglen ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yng ngholeg Polytechnig Wolverhampton, penodwyd Peter yn Arolygwr Henebion ac Adeiladau Hanesyddol gyda Cadw yn 1990; yn y swydd hon datblygodd faes archaeoleg ddiwydiannol gan chwarae rôl allweddol wrth sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i Flaenafon. Yn 2003 fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Uned Adfywio, rhan o Gyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a datblygodd raglenni grant pwysig ar ran sefydliadau cymunedol ac awdurdodau lleol. Ers iddo ymuno â'r Comisiwn Brenhinol, mae'r sefydliad wedi parhau i ddatblygu'r gwasanaeth arlein a gweithio mewn partneriaeth, ac wedi codi ymwybyddiaeth o'i rôl ymysg y cyhoedd trwy gyfrwng cyfres deledu BBC a chyfrol Ganmlwyddiant dan y teitl *Hidden Histories: Discovering the Heritage of Wales*. Mae Peter yn ysgrifennu ar bynciau'n ymwneud ag archaeoleg ddiwydiannol a hanes celf yng Nghymru; yn ogystal, mae'n gymrawd anrhydeddus Prifysgolion Abertawe ac Aberystwyth.

Walshe, Roger

Pennaeth Dysgu, Y Llyfrgell Brydeinig

Mae Roger yn gyfrifol am raglenni ar-lein, ar-safle a chenedlaethol y Llyfrgell ar gyfer ysgolion, cymunedau ac addysg oedolion. Mae ganddo lawer o brofiad ym maes datblygu gwefannau ac arddangosfeydd, ac y mae'n annog nifer o gynulleidfaoedd gwahanol i gymryd diddordeb yng nghasgliadau'r Llyfrgell.

Nicola Williams

Swyddog Marchnata Prosiect Llyfrgelloedd am Oes

Ymunodd Nicola ag Adran Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Wrecsam fel Swyddog Marchnata yn 2001; cafodd ei secondio i brosiect marchnata @ Eich Llyfrgell Chi drwy Gymru benbaladr yn 2005, gan weithio ar ddatblygu'r strategaeth farchnata. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n gweithio ar nifer o ymgyrchoedd a mentrau gwahanol. Bydd y rhaglen Llyfrgelloedd am Oes yn parhau hyd 2011.

Wright, Chris

Rheolwr Gweithrediadau, Amgueddfa a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

Bu Chris yn gweithio yn y theatr yn Llundain ac mewn lleoliadau eraill, gan deithio o amgylch y byd gydag adloniant fyw, yn fwyaf arbennig yn Ynysoedd Falkland, Belize a Sawdi Arabia yn ystod Rhyfel Cyntaf y Gwlf a Bosnia. Ar ôl bod yn gweithio i nifer o gwmnïau adnabyddus megis Pontin's, Mars Confectionery a Merlin Entertainment, mae Chris yn Rheolwr Gweithrediadau yn Amgueddfa a Pharc Treftadaeth Maes Glas er 2004.

Dymuna trefnwyr y gynhadledd ddiolch i'r arddangoswyr canlynol am eu cefnogaeth, a gwahoddir y cynadleddwyr i ymweld gyda hwy yn ystod y gynhadledd.

The conference organisers appreciate the support of the following exhibitors and we invite delegates to visit their stands at the conference.

BRIDGEALL LIBRARIES

Tel: 0141 585 6427

Bridgeall Libraries is the supplier of smartsm™, the world-leading Evidence Based Stock Management (EBSM™) software application.

Smartsm delivers repeatable performance improvements for library stock by providing evidence-based analysis, advice and performance monitoring of all stock across all media.

www.smartsm.com

COUTTS INFORMATION SERVICES

Tel: 01425 471160

International book aggregator Coutts provides libraries worldwide with a one-stop shop for all book supplies; services include firm and standing orders, selection support, cataloguing, processing and our 8.3 million titles bibliographic database "Oasis".

www.couttsinfo.com

CREDO REFERENCE

Tel: 01865 339452

The top-rated e-reference in LIBRARY JOURNAL's annual review. See what puts us ahead of the rest, and how Credo can now help drive up usage of all your information resources!

www.credoreference.com

CyMAL

Tel: 01970 610224

CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales is a policy division of the Welsh Assembly Government that advises the Minister for Culture, Welsh Language and Sport and is currently implementing a strategic development programme for libraries.

www.cymal.wales.gov.uk

DEMCO INTERIORS

Tel: 01992 454528

Demco Interiors is a library design consultancy with years of experience within all four library sectors.

With a dedicated nationwide sales team of library design professionals creating imaginative library designs to encourage access for all, working with librarians, local authorities and PFI partners and FREE Library Design.

www.demcointeriors.co.uk

EMERALD GROUP PUBLISHING LTD

Tel: 01274 785165

Emerald Group Publishing Limited is a leading publisher of management research, publishing over 200 journals, 300+ books, over 200 book series plus an extensive range of online products and services.

www.emeraldinsight.com

GALE, CENGAGE LEARNING

Tel: 0207 0672500

Gale, a part of Cengage Learning, is a world leader in e-research and educational publishing. We create and maintain more than 600 online resources, including The Economist Historical Archive 1843-2003, Gale Virtual Reference Library and Academis OneFile.

www.cengage.com

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU/THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**Tel: 01970 632902**

The home of books, photographs, maps, manuscripts, wills, religious archives, the National Screen and Sound Archive and a professional education team. Enjoy our restaurant, shop, exhibitions and events.

One of the great libraries of the world.

Cartref llyfrau, mapiau, ffotograffau, lluniau, lawysgrifau, ewyllysiau, archifau eglwysig, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru a gwasanaeth addysg. Mwynhewch ein bwyty, siop, arddangosfeydd a digwyddiadau.

Un o lyfrgelloedd mawr y byd.

www.llgc.org.uk

INFOR**Tel: 01454 892222**

Ian and Dan would welcome the opportunity to discuss Infor's market leading library software solutions including our full web enabled V-smart library management system and the leading system independent graphical OPAC solution AquaBrowser.

www.infor.com

JISC**Tel: 0203 0066075**

The aim of the Strategic Content Alliance is to build a common information environment where users of publicly funded e-content can gain best value from the investment that has been made by reducing the barriers that currently inhibit access, use and re-use of online content.

www.jisc.ac.uk

OXFORD UNIVERSITY PRESS**Tel: 01865 353830**

In addition to publishing over 4,600 new books each year, Oxford University Press is a major provider of acclaimed online resources to libraries and individuals worldwide.

www.oup.co.uk

POINT EIGHT LTD**TEL: 01384 238282**

We are a leading book shelving manufacturer. Our team of highly skilled craftsmen and designers, utilise the latest technology to offer innovated solutions and functional environments for today's libraries.

www.point8.co.uk

PROQUEST CSA**Tel: 01223 215512**

ProQuest creates specialized information resources and technologies that propel successful research and lifelong learning. A global leader in serving libraries of all types, ProQuest offers the culmination of experience from many respected brands.

www.proquest.co.uk

WELSH ASSEMBLY**Tel: 02920825816**

Our stand in the Betty Miles Room will be promoting Welsh Assembly Government Publications and the First Point of Contact Service.

www.wales.gsi.gov.uk

Representatives from the following companies will also be present:

BBC Audiobooks**The Holt Jackson Book Company Ltd****Ulverscroft****WF Howes Ltd**

We would like to thank the following companies and organisations for their support and sponsorship.

Hoffem ddiolch i'r cwmnïau a'r sefydliadau isod am eu cefnogaeth a'u nawdd.

CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales
CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

Archives and Records Council Wales / *Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru*

Career Development Group Wales / *Grŵp Datblygu Gyrfa Cymru*

Department of Information Studies, University of Wales Aberystwyth
Adran Astudiaethau Gwybodaeth, Prifysgol Cymru Aberystwyth

Federation of Museums and Art Galleries of Wales
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

Health Libraries Group Wales
Grŵp Llyfrgelloedd Iechyd Cymru

Kathleen Cooks Fund / *Cronfa Kathleen Cooks*

Powys County Council / *Cyngor Sir Powys*

University, College and Research Group Wales
Grŵp Prifysgolion, Colegau ac Ymchwil Cymru

Welsh Books Council / *Cyngor Llyfrau Cymru*


A Trade Exhibition will be held during the Conference
Cynhelir Arddangosfa'r Fasnach yn ystod y Gynhadledd

This conference has been organised by:
Trefnwyd y gynhadledd hon gan:

Chartered Institute of Library and Information Professionals Wales
Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru

Reg Charity No / *Elusen Gofrestredig Rhif 313014*

Supported by / *Noddwyd gan*



Archives & Records Council Wales/
Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru
www.llgc.org.uk/cac/